

## CLOUGH (TEULU), Plas Clough, Glan-y-wern, Bathafarn, a Hafodunos, sir Ddinbych.

Yn yr 17eg ganrif bu disgynyddion **Syr Richard Clough** yn byw yn sir Ddinbych, gan roi siryf ar ôl siryf i'r sir a henadur ar ôl henadur i dref Dinbych. Tua chanol y 18fed ganrif cawsant fesur newydd o uchelgais a medruswydd mewn busnes a'u galluogodd hwynt i gael iddynt eu hunain trwy briodas neu bryniant ystadau **Thelwaliaid** Bathafarn, a waeliaid Glan-y-wern, a **Lwydiaid** Hafodunos a thrwy hynny ddarparu ar gyfer cyfresi o deuluoedd mawrion, a llawer aelod ym mhob cenhedlaeth yn mynd i'r prifysgolion ac yn eu henwogi eu hunain, mewn ystyr leol, ym myd yr Eglwys, y gyfraith, neu'r fyddin. Allan o 13 phlentyn HUGH CLOUGH (1709 - 1760) aeth tri i Rydychen, fel yr aethai yntau o'u blaen, ac aeth un, HUGH CLOUGH (1746 - ?), i Gaergrawnt, gan ddyfod yn gymrawd Coleg y Brenin, yn gyfaill Cowper a Hayley, ac yn fardd, eithr bu farw'n ieuanc. Ar ôl gadael Rhodychen, priododd yr ieuengaf ohonynt, sef ROGER (BUTLER) CLOUGH (1759 - 1833), Anne Jemima Butler, Warminghurst, Sussex (chwae'r chydaerau gwraig ei prawd hŷn - y ddwy chwaer yn disgyn o deulu **Dolbeniaid** Segrwyd o ochr eu mam); cymerth ef gyfenw ei wraig yn ail enw iddo'i hun. Cafodd fywolaeth yn Sussex, eithr newidiodd hi am Wyddelwern (1791), a Chorwen wedi hynny (1797), a gwerthodd ystad ei wraig yn Sussex a phrynu ystad Bathafarn yn ei sir ei hun. Fe'i gwnaethpwyd yn ganon yn eglwys gadeiriol Llanelwy (1793), yn ustus heddwch (c. 1794), ac yn aelod o gyngor tref Ddinbych (1802). Yr oedd ei prawd THOMAS CLOUGH (1756 - 1814) hefyd yn ustus heddwch ac yn ganon - bu hefyd yn henadur (1794) ac yn ddiweddarach (1797) yn rheithor Dinbych - a chymerth y ddau fesurau cryfion yn erbyn terfysgwr yn y dref a'r cylch adeg balot y milisia (1795). Ceir profion o allu Roger B. Clough ym myd busnes yn y gwelliannau amaethyddol a wnaethpwyd ar ei ystadau (o 1792 ymlaen) - rhoddyd iddo fedal aur y Society of Arts yn 1807 - ac yn sefydlu'r banc cyntaf yn Ninbych (c. 1794) gyda David Mason, Ystrad Uchaf, y Parch. J. Lloyd Jones, Plas Madoc, a RICHARD BUTLER CLOUGH, Minydon, Colwyn, mab ei prawd hynaf; priododd yr olaf Catherine, merch ei ewythr (sef Roger Butler Clough), ac adeiladoldeb ac enwi, er cof amdan, eglwys S. Catherine, Colwyn (1837). Methodod y banc yn nirwasgiad y flwyddyn 1814, a bu raid gwerthu eiddo diwydiannol o fathau eraill a ddelid gan y partneriaid; golygodd talu i'r echwynwyr eu gofynion yn llawn (1822) i Clough a'i wraig golli llawer o'r arian a etifeddasant, ond yr oedd y rhan fwyaf o'u 10 plentyn un a wedi dechrau ar waith eu bywyd neu wedi priodi. Daeth yr ail fab, JAMES BUTLER CLOUGH (1784 - 1844), yn farsianwr cotwm yn Lerpwl ac yn dad i ARTHUR HUGH CLOUGH (1819 - 1861), y bardd, ac ANNE JEMIMA CLOUGH (1820 - 1892) arloesyd y mudiad addysg i ferched a phennaeth cyntaf Coleg Newnham, Caergrawnt; deui'r brawd a'r chwaer ar dro weithiau i Minydon (tŷ nad yw'n bod weithian) hyd farw eu hewythr yn 1844.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

### Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 329-30, 369

John Williams, *Ancient and modern Denbigh a descriptive history of the castle, borough and liberties with sketches of the lives, character and exploits of the feudal lords (Dinbych 1856)*, 280

*The Records of Denbigh and its Lordship bearing upon the general history of the county of Denbigh since the conquest of Wales; illustrated with many gems of Welsh mediæval poetry never before published* (1770), 171-2

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 360; iii, 199

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*, i, 266

Walter Davies, *General view of the agriculture and domestic economy of North Wales containing the counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionydd, Montgomery. Drawn up and published by order of the Board of Agriculture and Internal Improvement*, 261

*Economica*, 1926, 22

*The North Wales Gazette*, 12 Rhagfyr 1822, 27 Chwefror 1823

*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, iv, 61-73

*Oxford Dictionary of National Biography*, xi, 127

J. I. Osborne, *Arthur Hugh Clough* (Llundain 1920), 1920

B. A. Clough, *A Memoir of Anne Jemima Clough* (Llundain 1897), 1897

*Proceedings of the Llandudno and District Field Club* (Llanfairfechan 1906-1953), xx, 24

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732711](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Copio i'r  
clippwrdd

Preifatrwydd a Chwisia  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Noddiad an  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government